



Mr Will Godfrey  
Prif Weithredwr  
Cyngor Dinas Casnewydd  
Y Ganolfan Ddinesig  
Godfrey Road  
Casnewydd  
NP20 4UR

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Godfrey

## **Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol**

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir



**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## Cyngor Sir Casnewydd

### Cam Gofynnol 1.6

#### Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol neu pan fydd perygl o hynny.
- pan fydd cartref gofal yn cau neu bobl hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fydd angen cymorth ar bobl hŷn i'w helpu i adael yr ysbyty.

Os bydd gallu pobl yn mynd a dod neu os bydd hi'n anodd iddynt gyfathrebu, dylid cynnig eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, rhaid i breswylwyr allu cael gafael ar eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

I bob golwg, mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr ac mae'n dweud bod ei bolisïau a'i weithdrefnau yn cynnwys y gofyniad i gynnig eiriolaeth annibynnol yn unol â'r gofynion penodol a nodir gan y Comisiynydd.

Mae'r ymateb yn cyfeirio at ddarparu eiriolaeth wrth symud yn uniongyrchol o ysbyty i gartref gofal; yn yr achos hwn bydd gweithiwr cymdeithasol yr unigolyn yn gweithredu fel eiriolwr ar ran yr unigolyn hwnnw. Gan fod rôl yr eiriolwr yn benodol, nid yw'n eglur a yw'r Awdurdod Lleol wedi cydnabod y gwrthdaro posibl a allai godi dan rai amgylchiadau pan fyddai rhyw amheuaeth yn codi ynglŷn â phenderfyniad yr Awdurdod Lleol. Byddai egluro'r pwynt hwn yn gwella'r ymateb.

Serch hynny, mae'r ymateb yn mynd rhagddo i ddweud bod gwybodaeth yn cael ei darparu i unigolion a'u bod yn cael eu cyfeirio at ddarparwr eiriolaeth annibynnol yr Awdurdod Lleol (Age Cymru - Gwent). Mae angen egluro'r amgylchiadau hyn hefyd yn ymateb yr Awdurdod Lleol.

Mae'r ymateb yn sôn am y gweithdrefnau "cadarn" sydd ar waith ac fe gofnodir prosesau i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartrefi.

Byddai'r ymateb yn elwa o ddadansoddiad byr o'r ddarpariaeth bresennol ac o unrhyw gynllun gweithredu sydd wedi'i anelu at fynd i'r afael â bylchau a diffygion, sy'n cynnwys amserlen glir, ac sy'n enwi swyddogion atebol.

## **Cam Gofynnol 2.2**

### **Casgliad Cychwynnol - Rhannol**

2.2 Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol a, lle bydd hynny'n briodol, ar ofal gan bobl o sawl gwahanol ddisgyblaeth, a hwnnw wedi'i gynllunio i'w helpu i wella ar ôl cyfnod o afiechyd.

I bob golwg, mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r ystod o ofal amlddisgyblaeth a'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud bod cynlluniau gofal yn cynnwys canlyniadau y gall y gwasanaeth iechyd eu hwyluso neu y gellid eu hwyluso ar y cyd. Mae'r ymateb hefyd yn dweud bod mynediad at wasanaeth cwmpadau, gwasanaethau ail-alluogi, gwasanaeth ymateb brys, a chlinigau Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint eisoes ar gael yng Nghasnewydd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn ogystal â hyn, gall unigolyn gael gafael ar wasanaethau arbenigol agofal amlddisgyblaeth sy'n helpu i bobl adsefydlu ar ôl cyfnod o afiechyd. Serch hynny, nid yw'r ymateb yn dangos dealltwriaeth glir a dadansoddiad o ystod y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael ac unrhyw fylchau neu ddiffygion y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae angen rhagor o wybodaeth i gynnig sicrwydd y bydd yr Awdurdod Lleol yn llwyddo i gydymffurfio â'r Cam Gofynnol.

## **Cam Gofynnol 3.2**

### **Casgliad Cychwynnol - Rhannol**

3.2 Bydd holl weithwyr cartrefi gofal yn cael hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu a bydd pob aelod o'r staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn dilyn rhagor o hyfforddiant dementia'n barhaus i ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, a bydd hyn yn elfen benodol o'u goruchwyliaeth ac asesu eu perfformiad.

I bob golwg, mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant ym maes dementia ac mae'n dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r hyfforddiant dementia sydd ar gael ac ystod yr hyfforddiant hwnnw gyda golwg ar Brosiect Iâr Fach yr Haf; serch hynny, nid yw'r ymateb yn cynnig digon o fanylion inni allu asesu i ba raddau y mae'n cyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud bod yr angen i sicrhau staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol mewn cartrefi nyrsio a phreswyl yn rhan o gontractau'r darparwyr. Serch hynny, byddai syniad cliriach am sut y byddai hyn yn cael ei fonitro a'r gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu'n cynnig sicrwydd bod yr Awdurdod Lleol yn gallu cyflawni'r Cam Gofynnol mewn gwirionedd.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn dangos bod hyfforddiant rhad ac am ddim yn cael ei gynnis i bob lleoliad Gofal yng Nghasnewydd drwy gyfrwng Tîm Datblygu'r Gweithlu. Staff gofal sydd wedi darparu ac wedi mynychu'r hyfforddiant dementia. Serch hynny, heb gael eglurhad am y mathau o hyfforddiant, mae'n anodd asesu'r effaith. Byddai'r ymateb hefyd yn well o gael eglurhad am oruchwyliaeth ac asesu perfformiad i gydymffurfio â holl elfennau'r Cam Gofynnol.

## **Cam Gofynnol 3.3**

### **Casgliad Cychwynnol – Rhannol**

3.3 Dylid mynd ati'n benodol i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, a helpu preswylwyr i gynnal eu perthynas â chyfeillion. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gael cymorth sy'n seiliedig ar eu crefydd a chymorth gan gymunedau diwylliannol penodol

I bob golwg, mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio, gan ddweud bod darparwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a ddarperir oddi allan i'r cyngor gan y trydydd sector drwy gyfrwng y fforwm darparwyr a'r Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymunedol.

Mae'r ymateb hefyd yn dweud bod gweithwyr cymdeithasol yn adolygu cynlluniau gofal ac i ba raddau y maent yn cael eu cyflawni drwy adolygu'n rheolaidd gynlluniau gofal defnyddwyr gwasanaethau a gwasanaethau cynnal.

Er bod hyn i'w groesawu, mae angen rhagor o dystiolaeth am y modd y mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau gweithredol i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal. Yn ogystal â hyn, byddai'r ymateb yn well petai'n cynnwys gwybodaeth am gymorth seiliedig ar ffydd a chysylltiadau â chymunedau diwylliannol penodol. Efallai fod rhywbeth ar waith eisoes; ond gan nad oes cyfeiriad ato, mae'n anodd ei asesu. Dylid nodi cyfeiriadau at fylchau yn y ddarpariaeth yn hytrach na'u hawgrymu a dylid cynnwys cynllun gweithredu ac amserlen i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. Byddai hyn yn gwella'r ymateb ac yn cynnig sicrwydd bod yr Awdurdod Lleol am lwyddo i weithredu'r Cam Gofynnol mewn gwirionedd.

## **Cam Gofynnol 5.6**

### **Casgliad Cychwynnol – Derbyniol**

5.6 Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu risgiau parhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a roddir i breswylwyr a/neu'r posibilrwydd o darfu ar eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, i ddarparu cefnogaeth ddwys a thrawsnewidiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, yn ogystal ag i atal a lliniaru risgiau ym maes diogelu yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwella'n barhaus.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos parodrwydd i gydymffurfio â'r Cam Gofynnol ac mae'n awgrymu ei fod yn cydnabod y bydd yr Awdurdod Lleol yn ymuno â'r Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn dangos parodrwydd i gydweithio â Llywodraeth Cymru i gyflawni egwyddorion y Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol, gan ddatgan y bydd yn rhannu'r arferion presennol yn helaeth â Llywodraeth Cymru.

## **Cam Gofynnol 6.2**

### **Casgliad Cychwynnol – Rhannol**

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

I bob golwg, mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos rhyw ddealltwriaeth o bwysigrwydd gwrando ar leisiau pobl hŷn a sicrhau bod materion sy'n codi yn cael sylw. Serch hynny, er bod yr ymateb yn cydnabod y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n cofnodi

gwybodaeth drwy gyfrwng lleisiau pobl hŷn, nid yw'n dangos yn glir sut y defnyddir y wybodaeth hon i wella gwasanaethau.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud bod gwybodaeth am ansawdd yn cael ei chofnodi a'i hadrodd drwy gyfrwng arolygon ac adolygiadau o wybodaeth gan yr holl bobl hŷn, lle y gall fod yn anodd i "lais" gael ei glywed.

Ymgysylltir ag eiriolwyr ac aelodau'r teulu i sicrhau bod llais gan bawb. Byddai'r ymateb yn elwa o gynnwys enghreifftiau lle mae materion a godwyd wedi arwain at well canlyniadau i bobl hŷn.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos bod ganddo berthynas dda ag AGGCC a darparwyr sy'n awgrymu bod modd mynd i'r afael â materion ynghylch ansawdd mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi meysydd diffygiol a meysydd y mae angen eu gwella; ond mae'r ymateb yn awgrymu bod yr arferion presennol yn ddigonol ac nad oes angen eu gwella. Efallai fod hyn yn wir, ond gan nad yw'r ymateb yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau i bobl hŷn o ran ansawdd bywyd, nac ychwaith yn mynd i'r afael â hwy na'u disgrifio, byddai enghraifft o arfer da yn cynnig sicrwydd bod yr Awdurdod Lleol am lwyddo i gyflawni'r Cam Gofynnol mewn gwirionedd.

## **Cam Gofynnol 6.7**

### **Casgliad Cychwynnol – Derbyniol**

6.7 Bydd Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a rhai'r Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- yr Eiriolaeth Annibynnol sydd ar gael mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a/neu nam ar y synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ledled yr Awdurdod Lleol
- barn pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr llewg am ansawdd bywyd ac



## ansawdd y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal

- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylid cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion adrodd yn rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn ymateb i ofynion allweddol y Comisiynydd, ac mae'r Awdurdod Lleol yn dangos y bydd Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog i'r Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am ystod o themâu perthnasol; serch hynny, mae angen rhagor o fanylion er mwyn esbonio hyn yn fwy eglur ac er mwyn dangos sut y bydd hyn yn cyflawni Camau Gofynnol penodol y Comisiynydd.